

**Rhif 399 Rhyddiaith BI 4 ac iau (D)**  
**Testun- Diwrnod Da**  
**Beirniad – Elisabeth Casey**

**Rhif 399/16 - Lego Ninja: D 76304**

Da iawn Lego Ninja.

'Rwyd ti wedi ysgrifennu darn sylweddol yma am dy ddiwrnod da sef dydd Nadolig ac 'rwyd ti wedi cyfleu'r cyffro y diwrnod arbennig hwnnw'n dda iawn.

...rhai anrhegion mawr a rhai anrhegion bach. Roeddwn i'n hapus ac yn gyffrous.

'Rwyd ti wedi defnyddio pragraffau yn effeithiol wrth sôn am yr anrhegion i ddechrau, wedyn disgrifio Cinio Nadolig yn yr ail baragraff a thrafod gweddill dy ddiwrnod yn y paragraff olaf. 'Rwyd ti'n gallu mynegi dy farn a rhoi rheswm am hynny.

Dw i ddim yn hoffi mynd am dro achos mae'n ddiflas.

'Rwyd ti hefyd wedi defnyddio ymadroddion effeithiol.

Roeddwn i'n llawn dop. .... roedd yn ddoniol iawn.

Gwaith cywir a thaclus Lego Ninja.

**Rhif 399/1 - Star Stella: D 20114**

Da iawn Star Stella.

Fe wnes i fwynhau darllen am dy ddiwrnod arbennig yng Nghaerdydd yn fawr iawn.

'Rwyd ti wedi ysgrifennu'r darn yn gywir iawn ar y cyfan . 'Rwyd ti wedi treiglo'n ofalus.

...gyda mam a fy nghyfnither Kristal.

...cawson ni bicnic.

'Rwyd ti wedi amrywio dy frawddegau, weithiau yn dechrau gyda berf, weithiau gydag ymadrodd:

Prynodd Kristal sgarff las a prynodd mam clustdlysau arian.

I bwddin ces i....

Yn y prynhawn aethon ni i siopa...

'Rwyd ti'n gallu mynegi barn yn syml:

Dw i'n dwlu ar siopa.

Mae'n amlwg dy fod yn mwynhau dy fwyd Star Stella!

'Rwyd ti hoffi'r sylw:

Diolch mam a Kristal!!

wrth i ti gloi'r darn.

**Rhif 399/19 - Sianco : D 25415**

Gwaith da iawn Sianco.

'Rwyd ti wedi llwyddo i ysgrifennu'r darn hwn yn gywir iawn gan sillafu, atalnodi a threiglo'n ofalus:

Bwytais i frechdan gaws a chreision...

...aethom ymlaen gyda cherdded lan y mynydd.

'Rwyd ti hefyd wedi paragraffu'n effeithiol wrth osod yr olygfa, sef y daith yn y paragraff cyntaf, sôn am ddigwyddiadau e.e. Roedd Llewellyn wedi cwmpo... yn yr ail baragraff, cael cinio yn y trydydd paragraff, wedyn y trafferthion ac yn gorffen gyda phryd o fwyd blasus yn y paragraff olaf.

Trueni dy fod ddim wedi cyrraedd copa'r mynydd Sianco - y tro nesa efallai!

**Rhif 399/2 - Ariel : D 20125.**

**Ymdrech dda Asriel.**

Rwyt ti wedi disgrifio dy ddiwrnod arbennig yn fanwl iawn wrth ddechrau amser brecwast:

Dihunais i am chwech o'r gloch a bwytais i Shreddies i

Frecwastac yn cloi'r darn ar ôl llawer o ddigwyddiadau yn ystod y dydd:

Es i'r gwely wedi blino!

'Rwyt ti wedi bod yn brysur iawn wrth sôn am y ras gyfnewid, y cinio yn McDonald's, yna ymweld â'r parc thema.

Fe gest ti gyfle i fynegi barn wrth ddisgrifio'r bwyd yn McDonald.

Roedd e'n hyfryd.

Hefyd 'rwyt ti wedi defnyddio ansoddeiriau addas:

...rolycoster enfawr..

a cheisio treiglo:

...Rowan fy mrawd...

Da iawn Asriel.

**Rhif 399/8 - GWY123 : D63698**

'Rwyt ti wedi mwynhau sgwrsio gyda Mr. Urdd, mae'n amlwg, ac wedi darganfod bod Mr. Urdd yn hoffi siopa ac ei fod yn hoffi yfed dŵr.

'Rwyt ti wedi llwyddo i ysgrifennu yn yr amser gorffennol yn gywir:

Beth wnest ti?

Es i i siopa

'Rwyt ti hefyd wedi mynegi barn a rhoi rheswm:

Dw i'n hoffi siopa achos mae'n llawer o hwyl.

Gobeithio y byddi di'n cystadlu eto blwyddyn nesa GWY 123

**Rhif 399/14 - Superted : D 25441**

**Ymdrech dda Superted**

'Rwyt ti wedi ysgrifennu'n gywir iawn wrth ddisgrifio dy ddiwrnod arbennig yn y Ganolfan Hamdden, ac 'rwyt ti wedi trefnu dy ddarn yn daclus:

I ginio bwytais i...

Ar ôl cinio, aethon ni....

Yn y nos, aethon ni...

Rwyt ti'n gallu ysgrifennu yn y gorffennol gan ddenyddio amryw o ferfau yn person cyntaf a'r trydydd:

Es i i' ganolfan hamdden...

...aethon ni i newid.

Cefais i hwyl.

'Rwyt ti wedi atalnodi'n dda ac hefyd yn gallu mynegi barn a rhoi rheswm

Roeddwn i'n caru'r sleid achor roedd e'n gyflym iawn.

Dw'n hoffi bowlïo deg achos mae'n gyffrous.

Gwaith da Superted.

**Rhif 399/18 - Bob : D25416**

**Diwrnod da Ymdrech dda Bob.**

Mae'n amlwg dy fod wedi mwynhau pwll nofio'r gwesty yn fawr iawn, ac 'rwyt ti wedi disgrifio'r gweithgareddau yn fanwl :

Roeddwn i'n cerdded trwy'r rhaeadr achos roedd hi mor boeth.  
Pam oedd Charlie yn dod lawr y llithren fe wnaeth e splash fawr.

'Rwyd ti wedi ysgrifennu'n gywir iawn gan amrywio brawddegau:

Ar ôl cyrraedd..., Wedyn es i...

ac hefyd wedi mynegi barn yn effeithiol:

...i bwddin cefais i lawer o hufen iâ a dwi'n dwlu ar hufen iâ.

'Rwyd ti wedi mynegi cyffro'r diwrnod yn dda Bob.

### **Rhif 399 / 20 - Blodyn Haul : D 25405**

Ymrech dda iawn Blodyn Haul.

'Rwyd ti wedi llwyddo i gyfleu digwyddiadau dy ddiwrnod arbennig yn gywir iawn. Mae'r paragraffu'n effeithiol, pob un yn disgrifio gweithgaredd gwahanol yn daclus. Hefyd 'rwyd ti'n disgrifio pethau yn fanwl iawn:

...gwisgais i siwmpwr, het, menyg, cot, trowsus hir  
a sanau cynnes.

Nodwyd dy fod wedi atalnodi'n ofalus yn y frawddeg hon.  
Roeddwn i'n hoffi disgrifiad y rolercoaster wrth iddo fe droi:

Rownd a rownd a rownd!

gyda defnydd effeithiol o'r ebychiad, ac roddet ti'n ddoniol wrth ddisgrifio dy fam yn cwmpo!  
Fe wnes i fwynhau darllen am dy ddiwrnod da yn fawr iawn Blodyn Haul.

### **Rhif 399 / 6 - Pogba - D64802**

Yn wir, y cest ti a Mr. Urdd diwrnod arbennig iawn wrth wyllo'r pêl-droed yn y stadiwm. 'Rwyd ti wedi darganfod llawer am Mr. Urdd drwy ysgrifennu'r ddeialog yma - y ffaith ei fod yn hoffi nofio, yn hoffi pêl-droed ac am ei hoff fwydydd.

'Rwyd ti wedi ysgrifennu mwyafrif y darn yn y gorffennol drwy holi cwestiwn ac ymateb ac ar y cyfan yn gywir iawn:

Gwelaist ti'r peldroed?

Do, bendigedig.

Beth fwytaist ti?

Ces i siocled, brechdan a creision.

'Rwyn hoffii'r :

Da iawn bois!

ar y diwedd.

A fyddi di'n chwarae i Man U. y tymor nesa tybed?

Ymdrech dda Pogba.

### **Rhif 399/9 - Cacen : D64720**

'Rwyd ti wedi ysgrifennu'r sgwrs yma yn syml ond yn gywir iawn Cacen.

'Rwyd ti wedi rhoi trefn ar ddiwrnod Mr. Urdd ac hefyd wedi defnyddio geirfa gyfoethog fel 'anhygoel' Defnyddiaist ti amryw o ferfau yn y gorffennol:

Bwytais i, Yfais i, Nofiais i, chwaraeais i.

'Rwyt ti wedi mynegi barn yn syml a rhoi rheswm dros dy farn hefyd:  
Dw i'n hoffi nofio hefyd achos mae'n hwyl.

Ymdrech dda.

**Rhif 399/7- Y bos : D17208**

Ar ôl yr holl drafferthion, dw i ddim yn rhy siŵr y cafodd Mr Urdd diwrnod da - druan â fe!!!  
'Rwyt ti wedi ysgrifennu'r darn ar ffurf sgwrs sydd wedi dy helpu i roi trefn ar dy feddyliau.  
'Rwyt ti wedi ysgrifennu'r mwyafrif yn y gorffennol ac wedi llwyddo i ddefnyddio brawddeg negyddol yn gywir:

...doeddwn i ddim wedi torri asgwrn.

Rhaid i ti gystadlu eto y flwyddyn nesa Y bos.

**Rhif 399 / 5 - Lillie Jade : D64801**

'Rwyt ti wedi darganfod llawer am Mr. Urdd wrth i ti sgwrsio gyda fe Lillie Jade.  
'Rydyn ni'n gwybod ei fod yn hoffi melon, pop a gwin a bod 19 o anifeiliaid anwes a Mam a Dad gyda fe.  
'Rwyt ti wedi ysgrifennu'r mwyafrif yn y gorffennol drwy ddefnyddio cwestiwn ac ateb:  
Beth yfaist ti?  
Yfais i gwin a bop ac hefyd wedi defnyddio'r ffurf feddiannol:

Oes gyda ti anifeiliaid anwes?

Oes.....

Ymdrech dda.

**Rhif 399 / 4 - Fearn : D46605**

'Rwyt ti wedi meddwl am siâp Mr. Urdd sef siâp triogl, ac 'rwyt ti Fearn wedi bod yn greadiol wrth gymharu siâp Mr.Urdd â siâp y Pyramidiau, wrth iddo ymweld â'r Aiff. 'Rwyt ti'n cario ymlaen ar yr un trywydd drwy ddatgelu bod Mr Urdd wedi bwyta dairylea a Toblerone! Da iawn ti:  
Bwytais i dairylea  
Beth wnest ti nesaf?  
Prynais i Toblerone.  
'Rwyt ti wedi ysgrifennu'r ddeialog yn gywir iawn.  
Ymdrech dda

**Rhif 399 / 12 - Ronaldo : D71713**

'Rwyt ti wedi ysgrifennu'r ddeialog yma yn syml ond yn gywir gan ddefnyddio yr amser gorffennol gan mwyaf:  
Pwy welaist ti?  
Yn y gêm, gwelais i Cristiano Ronaldo a Dybala.  
'Rwyt ti' n mynegi barn yn effeithiol ac yn rhoi rheswm am dy farn hefyd:

Fy hoff chwaraewr ydy Cristiano Ronaldo a Alexis Sanchez  
achos mae llawer o sgiliau gyda fe...ond mae Cristiano Ronaldo  
yn mynd yn grac pan mae e'n colli.

Diwrnod cyffrous iawn!

Wyt ti'n meddwl y byddi di'n dal i chwarae i Real Madrid y tymor nesaf Ronaldo?

Ymdrech dda Ronaldo.

**Rhif 399/3 - Speedster: D75641**

Gwaith da Speedster.

Yn wir, cafodd Mr Urdd diwrnod i'r brenin!

'Rwyd ti wedi ysgrifennu'r sgwrs yn yr amser amherffaith a'r amser gorffennol yn gywir iawn:

...ces i ddiwrnod ffantastig ddoe

Pam oedd hi'n ddiwrnod ffantastig?

Roedd hi'n....achos es i i wyllo rygbi...

'Rwyd ti hefyd wedi defnyddio ambell i frawddeg bwyslais er mwyn amrywio'r ysgrifennu:

Fe ydy'r asgellwr.

Mae nifer o enghreifftiau o fynegi barn yn y darn:

Mae e'n dda achos mae e'n gyflym.

Dw i'n hoffi'r Sgarlets achos maen nhw'n gwisgo coch.

Rhaid i ti cystadlu eto y flwyddyn nesa Speedster.

### **Rhif 399/10 - Reis : D17250**

Gwaith da Reis.

Druan â Mr Urdd 'rwyn siwr ei fod yn teimlo'n dost ar ôl bwyta'r holl siocled 'na.

'Rwyd ti wedi bod yn glyfar iawn wrth ysgrifennu'r darn hwn. 'Rwyd ti wedi cymharu siâp Mr Urdd â siâp triongl Toblerone yn effeithiol dros ben!

Dyma fy hoff siocled ac mae e siâp triongl.

Dw i'n hoffi Toblerone achos dw i'n hoffi pethau trionglog!

'Rydyn ni'n dilyn hynt Mr Urdd i'r Swistir, ac 'rwyd ti wedi defnyddio llawer o ansoddeiriau e.e.Toblerone tywyll, Toblerone siocled ac 'rwyd ti hefyd wedi cymharu ansoddeiriau:

Mae e'n bellach na Lloegr.

'Rwy'n hoffi'r ebychiadau, sef :

Da iawn ti! O'r diwedd! ... a bant â fi i'r Swistir!

Toblerone ym mhobman!

'Rwyd ti hefyd wedi treiglo'n gywir iawn drwy'r darn.

Rhaid i ti gystadlu eto y flwyddyn nesa.

### **Rhif 399/13 - D75H - D75640**

Ymdrech dda.

Roedd yn ddiddorol darllen dy sgwrs gyda Mr. Urdd , wrth iddo fe ddisgrifio ei ymweliad â chastell Henllys. Roeddwn i hefyd yn hoffi'r 'tynnu coes' ar y dechrau wrth i chi anghytuno am fynd i nofio:

I'r pwll nofio? Nage! Dw i ddim yn hoffi nofio achos mae'n wastraff amser.

Wastraff amser? Na, mae nofio'n fendigedig achos dw i'n hoffi cadw'n heini.

Druan â Mr Urdd dydy e ddim y siâp cywir i nofio:

Mae coesau bach a breichiau bach gyda fi.

'Rwyd ti'n cael y cyfle yma i ddisgrifio ac i fynegi barn yn effeithiol iawn.

Hefyd 'rwyd ti' n amrywio dy frawddegau:

Mae eisiau 'arm bands' arnat ti!

Gwaith cywir iawn. Gobeithio y byddi di'n cystadlu y flwyddyn nesa hefyd.

**Rhif 399/11 - Dŵd Roblox : D60634**

Cafodd Mr. Urdd diwrnod cyffrous iawn yn Llundain!

Drwy ofyn nifer o gwestiynau iddo fe 'rwyd ti wedi darganfod llawer am ei ymweliad â'r ddinas:

Cwl, beth wyt ti'n mynd i wneud yn Llundain?

Dw i'n mynd i weld y London eye... a sea world

...a wedyn dwi'n mynd i siopa yn Hamleys.....

Yn y sgwrs 'rwyd ti wedi cael cyfle i fynegi barn:

Llundain achos mae'n ddiddorol.

Diddorol hefyd oedd sôn am Mr Urdd yn bwyta tost a chaws triongl, yr union siâp â fe ei hun!  
Ymdrech dda Dŵd Roblox.

## **Rhif 403 Rhyddiaith BI.8 a 9 (D)**

### **Testun- Y Penwythnos**

#### **Beirniad – Mari Davies**

Diolch am fy ngwahodd i feirniadu'r gystadleuaeth.

Saith darn oedd wedi'u cyflwyno . Roeddwn braidd yn siomedig bod cyn lleied wedi ymgeisio gan fyddai mwyafrif o ddisgyblion wedi cyflawni tasg debyg yn y dosbarth .Eto i gyd ,roedd y darnau a ddaeth i law yn ddiddorol , a'r cystadleuwyr i gyd ar y cyfan wedi llwyddo i sgrifennu darnau cynhwysfawr a chryno .

'Roeddwn yn chwilio am amrywiaeth o batrymau iaith a chafwyd hyn gan y saith gyda nifer yn defnyddio amser presennol a'r gorffennol o'r ferf a chystrawenau a geirfa effeithiol o ran iaith a mynegiant .Roedd y sillafu a'r atalnodi yn gywir ar y cyfan

Defnyddiodd nifer o ymgeiswyr idiomau Cymraeg megis "heb os nac onibai", "yn wên o glust i glust" "yn dân ar fy nghroen"

Diolch i chi gyd am gystadlu , daliwch ati !

1af - Mel. Disgrifiad taith i Baris wrth ddathlu pen-blwydd. Mae safon y gwaith yma yn arbennig . Mwynheuais ddarllen am y daith. Mae'r iaith o ansawdd dda, yn defnyddio nifer o batrymau iaith i greu darn diddorol yn cynnwys amrywiaeth ar ffurf y ferf, mynegi barn a theimladau gwahanol wrth fynd ar amryw o'r atyniadau. Defnydd da o idiomau Cymraeg . Mae Mel yn llwyr deilwng o'r wobr gynta.

2il - Ceffyl Arian. Disgrifiad penwythnos ym Mhorthcawl lle wnaeth gystadlu mewn sioe dalent . Safon yr iaith ar y cyfan yn dda ,darn diddorol yn cynnwys amrywiaeth o batrymau iaith . Wedi llwyddo i greu y cyffro a'r tensiwn wrth iddi gystadlu ac aros am ganlyniad y gystadleuaeth.

3ydd -Blodyn . Hanes trip i'r sinema . Safon yr iaith yn dda , sillafu a'r atalnodi yn gywir ar y cyfan .Hoffais ddisgrifiadau manwl o'r cymeriadau yn y ffilm wrth iddi/o fynegi barn ac hoffter gyda rhesymau.

1af Mel. 403/5

2il Ceffyl Arian. 403/4

3ydd Blodyn. 403/7

Ddraig goch 403/2

Eto , darn diddorol ac yn bleser ei ddarllen .Wedi llwyddo i greu naws a chyffro y gêm pêl droed wrth iddi a'i chydchwaraewyr chwarae yn Abertwsswg. Diweddglo effeithiol.defnydd da o idiomau Cymraeg

Twts 403/6 Newyddion tridie y penwythnos. Ymweliad â Paris.Disgrifiadau da o brif atyniadau'r brifddinas . Hoffais y frawddeg ola'

Seren Aur 403/3 Ymweliad â Chaerdydd i siopa gan fynd i'r sinema ar y ffordd adre . Patrymau iaith amrywiol a'r darn wedi ei sgrifennu'n gywir . Hoffais "Ar ôl mynd fel Usain Bolt cyrrhaeddon ni jyst mewn pryd. "

Aderyn gwyn 403/1

Disgrifiad o'r gystadleuaeth Jiwdo a'r ymgais i godi arian tuag at ymchwil tiwmor yr ymennydd. Mae'n gorffen gyda'r newyddion trist o farwolaeth ei ffrind oedd yn diodde o'r salwch . Dyw'r darn ddim yn llifo'n rhwydd . Mae yna nifer fawr o wallau sillafu a gramadeg yn anffodus.

**Rhif 380 Rhyddiaith Bl.2 ac iau 9**  
**Testun- Gwisgo Lan**  
**Beirniad – Marion Hughes**

380/1 Ffugenw: Aoibh Lewis

Yma cawn ddisgrifiad o'r paratoi a pherfformio'r ddrama Nadolig yn yr ysgol. Er mai iaith syml a geir, mae mwynhad y plentyn yn dod yn glir trwy'r ysgrifennu a'r darlunio lliwgar. Mae'n amlwg dy fod wedi dechrau cael blas ar ysgrifennu yn y Gymraeg. Dal ati oherwydd mi wnes fwynhau dy stori'n fawr.

380/2. Ffugenw: Rwdlan

Paragraff agoriadol gwyh i stori Rwdlan. Mae'n bwrw'r darllenwr yn syth i mewn i'r stori sy'n symud yn ei blaen ar ras gydag ambell saib i gael bwyd - dair gwaith a dweud y gwir ac mae'r disgrifiadau o'r bwyta hyd yn oed yn fwy bywiog na'r cyfnodau yn y dydd pryd fydd Rwdlan yn gwisgo lan. Defnyddia ddisgrifiadau megis "Sglaffiais fy mrecwast mewn llai na eiliad nes oedd fy nghoco pops..... yn un slwj yn dop fy mheipen fwyd". Chwarddais yn uchel ond yn anffodus, teimlaf bod yr ysgrifennwr wedi mwynhau'r bwyta yn well na'r gwisgo lan. Eto i gyd, mae Rwdlan yn ysgrifennwr addawol dros ben gyda dyfodol disglair o'i flaen ac mae ei ddefnydd o'i dafodiaith yn ddifyr iawn. Diolch am wneud imi chwerthin.

380/3. Ffugenw: Y Dywysoges Hud

Profiad hapus yr awdur pan fu'n forwyn briodas ac wedi gwisgo lan mewn ffrog hardd yw cynnwys ysgrifennu'r Dywysoges Hud. Mae'n llwyddo i roi inni holl fanylion a chyffro'r diwrnod hapus ac yn creu darlun clir i ni. Mae ei mwynhad i'w deimlo'n eglur trwy'r ysgrifennu ac, felly, yn rhoi mwynhad i'r darllenwr. Da iawn ti.

380/4. Ffugenw: Blodwen

Hwyrach nad yw'r stori hon yn eistedd yn hawdd gyda'r testun "Gwisgo Lan" gan nad oes yna wisgo yn digwydd tan y paragraffau olaf ond mae'n stori dda iawn ac yn agos at frig y gystadleuaeth. Mae'r ysgrifennu'n aeddfed a graenus gyda'r paragraff agoriadol yn hynod effeithiol wrth ddisgrifio ffrogiau sydd yn "hir fel trê" neu'n "agor fel blodau". Mae'n hawdd anghofio oed Blodwen wrth ddarllen. Ysgrifennwr addawol dros ben a chefais bleser mawr wrth ddarllen y stori oedd yn llawn dychymyg gyda'r iaith yn llifo'n rhugl.

380/5 Mabli

Cafwyd syniad am raglen newydd i S4C yn stori Mabli. Cymer hi a nifer o ffrindiau ran yn "Gwisgoedd Gwyh Cymru". Ceir yma wisgo lan mewn dillad lliwgar gan ddisgrifio tensiwn cyhoeddi'r wobr gyntaf yn effeithiol. Ni theimlaf bod rhan gyntaf y stori am gael cwpwrdd newydd yn ychwanegu at y stori; mae'n bwysig ystyried bod angen i bob paragraff, brawddeg ac hyd yn oed air haeddu ei le mewn stori fer. Buaswn hefyd wedi hoffi cael llai o gymeriadau a disgrifiadau mwy manwl o'r gwisgoedd deniadol. Syniad gwreiddiol ac edrychaf ymlaen at weld dy sioe ar y teledu rhyw ddydd.

380/6 Y Dewin Dwl

Yn stori'r Dewin Dwl cawn nifer o olygfeydd byrion lle mae'r Capten a'i griw yn cael eu cludo mewn llong ofod o un golygfa i'r llall. Nid tan ddiwedd y stori sylweddolwn mai gwisgo lan yn ei gartref mae'r awdur ifanc. Hoffais y diwedd lle cafwyd eglurhad a rhoddwyd clo taclus i ddiwedd y stori. Byr iawn yw pob golygfa a byddai'n bosibl datblygu pob un ohonynt i fod yn stori ar ei phen ei hun. Hoffais rhai delweddau fel yr "estron yn crïo dagrau yn llawn sleim" a "bwyta brechdan sêr". Y tro nesa hoffwn mwy o ddisgrifiadau tebyg fyddai'n helpu rhoi cnawd ar sgerbwd y stori.

380/7. Ffugenw: Tylluan

Taid sydd yn destun y gwisgo lan y tro hwn ond daw tro yng nghynffon y stori wrth i Taid gael ei ddal gan gloch y drws ffrynt pan mae'n edrych yn ysblennydd yn y dillad mae Mia a



Nel wedi gwisgo amdano. Hoffais symlrwydd y stori a'i chynildeb. Roedd y disgrifiad o wisg Taid yn creu darlun clir ohono druan gyda'r olwg "boenus" ar ei wyneb. Llifodd y stori'n rhwydd gyda'r sgwrsio rhyngddynt yn naturiol. Ymgais dda.

#### 380/8 Yr Anifeiliaid Od

Stori hyfryd sy'n dangos bod gan y storiwr gryn ddychmyg. Taith i'r sŵ sydd yma ond nid y plant sy'n gwisgo lan ond, yn hytrach, yr anifeiliaid. Gwnes fwynhau gwreiddioldeb y stori ac roedd yr ysgrifennu'n llifo'n hawdd. Efallai nad oedd yr ysgrifennu'n gynnil gyda gormod o gymeiriadau a theimlais nad oedd diben i ambell ran. Er hynny, mae'r stori'n dangos addewid. Dal ati.

#### 380/9. Ffugenw: Clemmie.

"Swpergirl" yw'r wisg ffansi y tro hwn a chawn ddisgrifiad llawn ohoni yn y paragraff cyntaf. Ceir tri antur yn dilyn y gwisgo lan. Fy hoff syniad oedd yr ail lle daw Swpergirl i achub merched ar iard yr ysgol rhag y bachgen drwg, Tom. Gwnaeth ddefnyddio pwerau hudol i leihau maint Tom i dair centimetr gan sicrhau na fydd yn poeni'r merched eto. Stori ddifyr.

#### 380/10 Pêl -droed

Nid oedd y ffugenw yn rhoi'r cliw cywir am brif ddiddordeb y storiwr yma. Mae'n amlwg taw rygbi sydd yn tanio'i ddychmyg. Erbyn diwedd ei stori, wrth roi crys coch amdano, caiff ddiwrnod braf yn chwarae i Gymru, y Scarlets a'i dîm lleol ac, wrth gwrs, ennill bob tro. Brawddegau syml byrion a geir yma gydag atalnodi cywir ac mae'r stori'n llifo'n hwylus. Nid yw amser y ferf yn gyson bob tro. Byddwn, efallai, wedi mwynhau ysgrifennu gyda mwy o ddyfnder am un o'r gemau gan roi sylw i ddefnyddio cysyllteiriau yn hytrach nac atalnodi llawn a cheisio creu mwy o naws y profiad cyffrous drwy feddwl yn ofalus am ddefnyddio ansoddeiriau, adferfau ac ati. Diolch am gystadlu.

#### 380/11. Ffugenw: Gwen

Stori dipyn yn wahanol oherwydd dyma'r unig ymgeisydd a gafodd ei gludo i fyd y milfeddyg pan brynodd mam wisg ffansi milfeddyg. Cefais fwynhad wrth ddarllen y gwaith ac, rydw i'n siwr, i Gwen ysgrifennu o brofiad. Nid yw'n glir p'un ai yw'r profiad yn un cynorthwyo milfeddyg go iawn ar ei daith o gwmpas neu, efallai, o weld milfeddyg wrth ei waith ar y fferm. Ta waeth, mae'r diwrnod yn dod yn fyw iawn wrth ddarllen er nad wyf yn sicr byddai milfeddyg yn rhoi llawdriniaeth i jiraff sydd wedi llyncu pêl mor hawdd neu a fyddai yn medru helpu sebra golodd ei streipiau. Cyfuniad o ddychymyg a realiti mae'n siwr. Syml yw'r arddull gan nad yw'r defnydd o gysyllteiriau, er enghraifft, yn sefydlog eto. Diolch am y syniad gwreiddiol.

#### 380/12. Ffugenw: Carys

Tybiaf bod y stori yma yn gwireddu breuddwyd i Carys wrth iddi gael llwyddiant ysgubol tra'n dawnsio'r Nutcracker ym Mharis. Yr anrheg ddaw tad-cu o America iddi, sef ffrog balerina, sydd yn ei chludo i'r llwyfan ac mae'r stori'n llawn o dermau'r ballet ynghyd â disgrifiadau o'r gwisgoedd lliwgar. Mae'r stori wedi ei strwythuro'n dda ond efallai byddai defnyddio cysyllteiriau yn hytrach nag atalnodi llawn yn gwneud i'r ysgrifennu llifo'n fwy effeithiol. Er hynny, gwnes fwynhau'r stori.

#### 380/13. Ffugenw: Efs

Mae yma amlinelliad sgript ffilm newydd "Bat Girl" dda yma. Hoffais ddisgrifiad o'r wisg gafwyd fel anrheg benblwydd; rhoddwyd darlun clir i mi. Cafwyd nifer o anturiaethau byrion ond efallai byddai cadw at un ac ehangu ar hwnnw wedi bod yn well. Fy ffefrun oedd yr olaf pan ddaeth Bat Girl nôl i Gymru. Diolch am stori fywiog.

#### 380/14. Ffugenw: Seb

Mae stori Seb yn sôn am yr hwyl o wisgo lan mewn dillad hudol sydd yn cludo dau ffrind, Jake a Steff, i fyd y môr leidr a'r marchog. Mae Seb yn dechrau arbrofi gydag atalnodi ac

mae'r stori'n symud yn ei blaen yn bennaf drwy'r sgwrsio sy'n mynd ymlaen rhwng y ddau anturiaethwr. Mae yma ddigon o gyffro ond buaswn wedi mwynhau darllen rhannau mwy disgrifiadol i'r stori er mwyn rhoi awyrgylch ac i greu llun i mi wrth ddarllen am y castell a'r llong. Wrth lwc daeth y bechgyn i ben â thynnu'r dillad gwisgo lan cyn i'r ddraig gyrraedd! Diolch, Seb, am dy stori.

380/15 Ffugenw: Sali Mali

Stori syml am Mair sydd yn defnyddio hudlath y bocs gwisgo lan a chael ei hun ynghanol anifeiliaid a gododd ofn arni. Cynlluniwyd y stori'n ofalus gyda diweddglo reit effeithiol. Mae Sali Mali yn dechrau defnyddio ansodderiau i liwio'r gwaith ac yn amrywio tipyn ar y brawddegau. Storiwr ifanc sydd yn dechrau datblygu ei sgiliau. Diolch am dy stori hyfryd.

380/16. Ffugenw: Cadi Fflur

Stori wreiddiol yn dangos llawer o ddychymyg sy'n mynd â ni i ddiwrnod Nadolig tra gwahanol i'r arferol. Ceir coeden hud yng ngardd mamgu a thwll cwningen sy'n sugno arwr y stori a mamgu gyda fe, i fyd ffantasi. Y goeden sy'n gwisgo'r cymeriadau tra bo Dafydd Iwan a'i gitar yn teyrnasu ar y cyfan. Dyma "fyd hudolus" Cadi Fflur. Mae yma ddigon o ymgais i liwio gyda geiriau gyda "chacennau cymylau ac enfys" a'r "tai fel madarch gwyn". Ymdrech dda iawn.

380/19. Ffugenw: Haf

Credaf bod Haf wedi ysgrifennu am ddiwrnod Calan Gaeaf yn Efrog Newydd allan o brofiad personol oherwydd mae'r ysgrifennu'n llawn manylion am y gwisgoedd, yr addurniadau a'r hwyl a geir yn y ddinas ar y diwrnod arbennig hwn. Dwi ddim mor siwr am y dewin hud. Naill ai mae'r ysgrifennwr wedi defnyddio ychydig o'i ddychymyg neu mae'r dewin hwn yn dalentog dros ben wrth wneud i Freddie hofran ac i dân ddod allan o lyfr wrth ei agor! Mae'r ysgrifennu'n gryno a phob brawddeg yn ennill ei lle i wneud darn diddorol a gafaelgar. Diolch am ddod â'r profiad o Galan Gaeaf yn Efrog Newydd yn fyw i mi.

380/20. Ffugenw: Twtsen

Mae Twtsen yn dechrau cael mwynhad wrth ysgrifennu ac yn ei stori caiff hwyl wrth geisio dewis pa wisg ddylai wisgo i fynd i barti. Ceir cnewyllyn stori dda yma ac mae digon o le i ddatblygu'r syniadau. Beth am ddisgrifiad o'r wisg a ddewisaist a byddwn wedi mwynhau tipyn o hanes y parti. Roedd yr ysgrifennu'n gywir ar y cyfan ac hoffais ddiweddglo'r stori. Cadw i ysgrifennu, Twtsen.

380/21 Ffugenw: Elsa

Stori hyfryd, Elsa. Cludwyd Elsa, a fi gyda hi, i Disneyland oedd yn lle llawn lliw, cerddoriaeth a dawns. Mae'r ysgrifennu'n gywir a cheir ambell ddefnydd addawol o iaith megis lle "hudolus", "pob lliw a llun" a phob"lliw dan yr haul". Dal ati i fwynhau ysgrifennu storïau, Elsa.

380/22. Ffugenw: Twincl.

Ym mreuddwyd Twincl caiff ei gludo i helynt yn y gofod. Defnyddia'i ddychymyg wrth roi disgrifiad effeithiol o gamu o'r roced. I Twincl mae'r gofod yn lle "hudolus" a theimla'n siomedig pan yn deffro yn ei wely ar yr eiliad pan oedd ar fin achub y byd rhag cael ei daro gan gomet. Uchafbwynt y stori i mi oedd ei ddisgrifiad o'r gofod a buaswn wedi hoffi ehangu ar hwn. Diolch am dy stori hyfryd.

380/23. Ffugenw: Yr Wyddfa

Hoffais y ffordd mae'r storiwr fel pe bai yn siarad yn uniongyrchol â'r darllenwr yn y stori hon. Mae yma ambell dinc o hiwmor oedd yn dal fy sylw. Efallai bod yma ormod o gymeriadau; mewn stori fer fel hon byddai rhyw dri yn hen ddigon a rhaid i bob un fod â rhan i'w chwarae yn y plot. Er hynny, mae yna ffresni i syniadau Yr Wyddfa a gwnes fwynhau darllen y stori.

380/24 Ffugenw: Gigi

Stori fer syml sydd yma. Mae Gigi yn defnyddio lluniau cyfrifiadurol i ychwanegu at y stori'n effeithiol. Defnyddia batrymau sylfaenol yn gywir i gyfleu'r stori. Pob hwyl iti gyda dy ysgrifennu.

380/25. Ffugenw: Superted

Er nad yw hi'n stori hir mae'n stori gyflawn. Caiff Superted helynt ar ei ffordd i'r ysgol wrth achub bywyd plentyn sydd ar fin rhedeg allan i'r ffordd beryglus. Mae'r iaith yn llifo'n hawdd a dechreu'r ysgrifennwr ddefnyddio brawddegau mwy cymhleth gan amrywio ar eu strwythur sy'n ychwanegu at yr ysgrifennu. Yn dy stori nesaf ceisia wneud mwy o hyn. Dal ati!

380/26. Ffugenw: Guto Prydderch

Cryfder y stori yma yw'r hiwmor yn y diweddglo. Mae syniad y stori'n ddigon syml wrth i frawd a chwaer wisgo i fyny fel archarwyr ac achub y dydd yng nghegin mam wrth iddi wneud tost. Mae'r sgwrsio rhwng mam a'r plant yn rhedeg yn naturiol ac mae'r ysgrifennwr yn dechrau defnyddio geiriau i liwio'r ysgrifennu megis "crasboeth", a "mwgwd du fel y nos". Diolch am stori reit ddoniol.

380/28. Ffugenw: Deinosor

Ar ôl gwisgo lan fel gofodwr a phili pala aiff yr ysgrifennwr a'i ffrind Elsi am ddiwrnod i'r gofod. Symuda'r stori yn ei blaen trwy'r sgwrsio rhwng y ddau ac mae weithiau'n anodd dilyn ei rhediad. Er hynny, mae'r syniad yn hyfryd ac mae'r stori'n llawn cyffro. Byddai disgrifio'r gwisgoedd a'r seren wib, er enghraifft, rhwng y sgwrsio wedi gwneud dy stori'n fwy diddorol ac haws i'w dilyn. Tybed beth ddigwyddodd i Neli oedd heb wisg ar ddechrau'r stori?

380/29. Ffugenw: Jeri

Ceir nifer o straeon mewn un yma wrth i ddillad gwisgo lan ein cludo i gastell, i'r gofod ac o dan y môr. Hwyrach byddai cynilo ar y digwyddiadau wedi bod yn well ond fy hoff ran oedd darganfod y trysor o dan y môr. Gyda chymorth tylwythen deg ceir trysor gwerth chweil. Un o gryfderau ysgrifennu Jeri yw ei fod yn dechrau amrywio dechrau ei frawddegau; ceir "Yn sydyn", "Ar ôl", "Yn ofalus" sydd llawer mwy diddorol na'r gair "wedyn". Dal ati, Jeri.

380/30. Ffugenw: Sam

Stori hyfryd am wisgo fel brenhines sydd gan Sam. Caiff helynt yn y goedwig wrth achub aderyn bach tra gwylia'r frân ddu uwchben. Mae'r Gymraeg yn llifo'n naturiol er mae'n anodd dilyn rhediad y stori oherwydd dim ond dechrau meithrin sgiliau atalnodi mae Sam. Er hynny, mi ddaw'r ysgrifennu wrth i'r sgiliau ddatblygu oherwydd mae yma'r syniadau am stori dda.

380/31. Ffugenw: Mr Urdd

Mae Sam Tân y stori hon yn dipyn o gymeriad a chefais hwyl yn darllen am ddiwrnod caled o waith i Sam pan oedd tân yn yr ysgol. Mae'n stori'n gyflawn gyda chyffyrddiadau o hiwmor yn enwedig yn y ffrawddeg olaf sydd yn rhoi diweddglo campus i'r stori. Mae'r sgwrsio rhwng y cymeriadau'n naturiol ac yn rhwydd. Da iawn, Mr Urdd.

380/32. Ffugenw: Anna

Mae'n amlwg bod Anna wedi cael hwyl yn ysgrifennu ei stori am amryw o helyntion sy'n digwydd wrth wahodd ffrindiau i ymuno â hi i wisgo lan. Buaswn i'n meddwl bod Anna yn hoffi chwedlau oherwydd defnyddia rhai o gonfensiynau chwedl dda fel ail ddweud ambell i ymadrodd megis, yn ei stori hi, "ond ond ond.....". Ni chredaf bod gan y stori gynllun pendant o'r dechrau; yn hytrach mae'r ysgrifennwr yn cael ei chludo o un lle i'r llall wrth iddi gael ei harwain gan gyffro'r stori. Felly, nid yw'n stori gynnil, strwythuredig ond daeth brwdfrydedd Anna yn glir trwy'r ysgrifennu.

380/33. Ffugenw: Tom

Stori syml pan mae'r ysgrifennwr yn gwisgo lan fel gwenynen ac, ynghyd â'r gath, Simi, yn cael antur yn y goedwig pan gwrddant â'r cadno drwg. Stori sydd yn llawn hwyl ac wedi ei strwythuro'n dda gyda'r addewid o hwyl pellach gyda'r gath a'r llwynog drannoeth. Diolch am dy stori.

380/34. Ffugenw: Dona Direidi.

Stori ddigon difyr ac awn i'r sw y tro hwn. Yn anffodus, nid yw'r stori wir yn dechrau tan bron ddiwedd yr ysgrifennu oherwydd mae Dona Direidi wedi gwario rhan helaeth o'r stori yn rhoi cefndir yn ei le yn hytrach na bwrw i mewn i'r stori o'r cychwyn cyntaf. Bydd aeddfedrwydd a phrofiad yn datblygu'r sgiliau oherwydd buaswn wedi hoffi clywed llawer mwy am y diwrnod yn y sw. Y stori nesaf, efallai.

380/35. Ffugenw: Loli

Hoffais iaith naturiol y sgwrsio yn stori Loli rhwng yr arwres, Elsa, a'r ferch fach Casi. Gyda'r marchog wrth ei hochr mae'n achub y ferch fach. Sgwn i pam oedd y ferch fach yn crïo yn y goedwig a phwy oedd y marchog? Roedd lle yma i ehangu tipyn ond pa ffordd well i gloi stori na gydag hufen iâ.

380/36. Ffugenw: Ungorn Hud

Daeth y stori hon yn agos i'r brig oherwydd ei bod yn stori lle mae'r cyfan yn gwau at ei gilydd i greu cyfanwaith darllenadwy dros ben. Yn y stori ceir ci bach, Lisi, a'r tro hwn y ci sy'n gwisgo lan yng nghoron y dywysoges. Dilyna'r stori Lisi wrth iddi redeg trwy'r pentref. Mae'r camddeall sy'n codi o'r sefyllfa yn eitha cymhleth ond mae Ungorn Hud yn llwyddo i ddod â'r cyfan ynghyd yn dwt i'r diwedd. Mae'r iaith yn llawn bywyd sy'n gwneud i'r stori lifo a dal sylw'r darllenwr. Ymdrech dda iawn.

380/37. Ffugenw: Mekanik.

Stori wreiddiol. Yr unig stori yn y gystadleuaeth lle roedd gwisgo coron y frenhines yn gwneud i Gethin, y prif gymeriad, fod yn fechanic heb ei ail! Teimlaf bod Mekanik yn seilïo ei stori ar ei brofiadau personol sydd yn rhoi cymeriad i Gethin yn y stori. Nid yw'n stori hir ond mae'n gyflawn ac wedi ei hysgrifennu'n gywir ar y cyfan hablaw am ambell wall atalnodi. Hoffais yr amrywiaeth yn hyd brawddegau'r ysgrifennwr ac mae yma'r potensial i ehangu ar y syniadau sydd yma i greu stori effeithiol iawn. Cadw i ysgrifennu.

380/38. Ffugenw: Aaron Ramsey

Peth braf oedd darllen stori lle roedd y cysyniad oedd yn gefndir i'r stori mor annisgwyl. Diwrnod gwisgo lan mewn ysgol ar y blaned Gwener sy gyda ni gyda'r plant, am y tro, yn gwisgo lan fel pobl o'r ddaear. Mae yma nifer o gyffyrddiadau bach doniol megis y rhieni wedi gwisgo lan fel Theresa May a Donald Trump a chefais gipolwg ar fywyd dydd i ddydd y blaned Gwener. Byddai wedi bod yn braf datblygu'r agwedd yma ar y stori. Gwnes fwynhau ei darllen yn fawr.

380/40. Ffugenw: Y Corrach

Braf oedd cael stori wedi ei lleoli'n gadarn ar arfordir godidog Sir Benfro a gwisg nofio môr forwyn sydd yn arwain at antur Sioned. Mae'r môr a'i creaduriaid yn llenwi'r stori. Nid yw'n stori gymhleth ond mae'n ddifyr iawn. Diolch am ysgrifennu stori oedd wedi fy ngludo i lan y môr yn yr haf ar brynhawn gaeafol.

380/41. Ffugenw: Miss Fach Annibynnol.

Stori ddifyr am ferch sy'n gwisgo lan fel tylwythen deg ac yn achub bocs dawnsio'r tylwyth teg rag ddwylo Jac y Rhew. Mae yma arwyddion bod yr ysgrifennwr yn dechrau arbrofi gyda geirfa wrth inni gael disgrifiadau trawiadol fel "dagrau sgleiniog yn rhoio lawr ei bochau" a'r castell wedi ei greu "allan o rew pigfain". Mae'n stori gyflawn ac yn symud yn hwylus yn ei blaen. Dal ati i ysgrifennu.

380/42. Ffugenw: Martha

Rhaid dweud, Martha, bod diwrnod colli dant yn ddiwrnod tu hwnt o gyffrous a gwnes fwynhau darllen dy stori. Mae'r digwyddiad yn ysgogi Martha i wisgo lan fel tylwythen deg ac mae'n diddori ei hun trwy'r dydd tan ddaw amser gwely a dyfodiad y dylwythen deg go iawn. Mae'r ysgrifennwr yn dechrau defnyddio cymariaethau megis rhedeg i fyny'r grisiau "fel mellten" ac ansoddeiriau fel "adenydd sgleiniog" i liwio'r ysgrifennu. Mae hon yn stori ychydig yn wahanol i'r arfer. Diolch am gystadlu.

**Beirniadaeth Cystadleuaeth383**  
**Rhyddiaith Bl.7 – Anghofio**  
**Beirniad – Hannah Roberts**

Yn gyntaf diolch i bawb wnaeth gystadlu yn y gystadleuaeth hon,'roedd rhywbeth i'w ganmol ym mhob un bron. Cofiwch taw chwaeth bersonol beirniad yw beirniadaeth,dyma fy newis i, hwyrach pe bae rhywun arall wrthi y byddai'r canlyniad yn hollol wahannol.!!!

Dyma'r rhai wnaeth dynu'n sylw i.

WIL CWAC CWAC—Anghofio anrheg i ben blwydd Mam—rhoi CARIAD yn lle!!!Da.

BOI O'R BALA---yn gredadwy iawn.

TROPHY HYWEL—Dechrau gafaelgar—hoffi “for o filwyr”—iaith lan ac ystwyth a digon o ddychymyg. Ydweud yn y presennol yn digwydd o flaen ein llygaid ac yn gwneud y stori'n fyw, wedi'i saernio'n grefftus a'r dechrau a'r diwedd yn gylch cyfan Da iawn.

Y CYMRO---Disgrifiadol iawn e e “croen yn esmwyth fel sidan” eto—pen ol bodlon—styllod cyffyrddus Mae naws y bardd fan hyn e e “breichiau'n gafael yn dyn yn yr awyr iach”---hyfryd.—delweddau da ac iaith glan a gofalus Da iawn

Pe byddai wedi bod hawl i rannu'r 3edd wobr byddai wedi mynd i

naill ai TROPHY HYWEL neu Y CYMRO Llongyfarchion.

HAFAN DEG.----Dwli ar y gymhariaeth am Mamgu “gwallt fel cymylau gwlan cotwm” stori a iaith lan gofalus. Da.

LLWYNOG.---delweddau da---“unigrwydd yn grafanc yn gwasgu amdani”—“distawrwydd y llofft yn flanced oer”—cadw cysondeb delweddol, -Da,--eto “y ffon fel gelyn bach yn poeri gwenwyn yn y cornel” Da iawn.

E T.---stori'n llawn dychymyg wedi ei chynllunio'n ofalus.

FFYRGI BACH.—Mae neges yn y stori ma sef nid BYW yw technoleg!! anghofio ffon ar wyliau'n ddim yn ddiwedd y byd,yma, mae ei berchennog yn darganfod byw allan yn yr awyr iach yn lle.

GARETH BALE---mwynheais yr hanes yma a'r diwedd glo yn codi gwen.

DRAIG GOCH CMRU---Stori am y lleuad disgrifiadau da manwl llawn dychymyg.

DERYN Y SI----Syniad hyfryd o agor bocs atgofion—stori aeddfed a phersonoli da e e “anadl y tai”—yr haul yn chwythu'r tywyllwch i ffwrdd” dwli ar “dihatru yr anrhegion” delweddi hyfryd Da iawn.

SA I'N GWYBOD---hanes teimladwy iawn—meddwl am sefyllfaoedd pobol eraill yn ein byd syn dysgu gwrs bwysig i ni a'n hysfa am y dechnoleg ddiweddaraf—gormod o ddim nid yw dda.

RAMSEY WILLIAMS---sori rhwydd i'w darllen wedi ei mwynhau.

OGOF LLYWELYN—stori yn llawn hanes Cymru —da iawn ti.

CAU DRWS---naws amaethyddol hyfryd fan hyn’hoffi enwau’r caeau Rhos y Pinc mor bert, stori wahannol—mas o’r ysgol, y cartef a dim technoleg yn agos, at rhywbeth naturiol—yr awyr agored---Rhyddhad!!!!Mynegiant cywir, llyfn a chynnil mwynheais y darllen. Hiwmor iach-- “Heinz yn gymaint o ffrind a Bear grills.

DRAIG GOCH---gwylio gem rygbi sy’ fan hyn,a stori hanesyddol o’i mewn—gorffen gyda neges bwysig “Os nad yw e’n fawr me e’n ddigon”.

## Cystadleuaeth 385

### Blwyddyn 9 - Ymson 'Arwr'

#### Beirniad – Huw Carrod

Derbyniais wythdeg-dau ymson ar y testun Arwr. Enwogion o'r gorffennol a'r presennol oedd arwyr y mwyafrif - yn wŷr a gwragedd, yn eu plith Winston Churchill, Martin Luther King, Malala Yousafzai, Mari Jones, Alan Turin, J.K.Rowling, Anne Frank ac Ellis Evans (Hedd Wyn). O'r meysydd chwarae ymddangosodd Usain Bolt, Hadleigh Parkes, Gareth Bale a Lionel Messi.

Ymhlith yr arwyr eraill 'roedd aelodau o'r gwasanaethau brys - yn barafeddygon, dynion tan a.y.y.b. a brofodd eu gwrrhdyri mewn trychinebau megis Chernobyl, 9/11 a chyngerdd Ariana Grande ym Manceinion yn 2017 yn ogystal â llawfeddygon a nyrsis ein hysbytai.

Aelodau'r teulu oedd y gweddill yn frodyr a chwiorydd, neiniau a theidiau - mewn ambell i achos wedi achub bywyd trwy anrhegu aren i aelod agos o'r teulu.

Prin oedd yr hiwmor yn yr ymsonau - diolch i *Hogan o Pesta* am rannu ei phrofiadau doniol yng ngwisg 'Cyw' ac i *Blodeuwedd* am rannu ei meddyliau wrth lunio traethawd mewn arholiad ar y testun.

Llwyddodd y mwyafrif i ymateb i her ymson -cyfleu teimladau, meddyliau a syniadau'r unigolyn, er i rai canolbwyntio'n ormodol ar y naratif ar draul ymateb yr arwr i'r digwyddiadau.

Ellis Humphrey Evans (Hedd Wyn) a rhai o'i gymrodyr oedd dewis tri deg chwech o'r cystadleuwyr a chafwyd ymsonau clodwiw gan y mwyafrif - yn adlewyrchu gwybodaeth ein disgyblion am y gwron o Drawsfynydd-ei ddiddordebau a'i ddaliadau, yn ogystal â'r amodau erchyll yn y ffosydd ar y 'Western Front'. Mae'n amlwg bod y ffilm 'Hedd Wyn' wedi dylanwadu ar gynnwys nifer o'r ymsonau gan iddynt ddilyn yn agos naratif y ffilm. Cawsom ddisgrifiadau byw a chyffyrddiadau cofiadwy gan amryw o'r tri deg chwech, ond eu gwendid mwyaf oedd y tueddiad i ail- adrodd yr hen ystrydebau cyfarwydd a berthyn i'r hanes.

Cawsom gyffyrddiadau gafaelgar gan *Swan*, *Stradros*, *Winnie Pooh*, *Mwnici Bach Bleddyn a Hedyn*. Bu i *John* ddatgelu teimladau Hedd Wyn i ryfel yn gynnil ac effeithiol yn ei arddull hoffus ac yn yr un modd cawsom ddehongliad aeddfed o deimladau tebygol y bardd wrth iddo baratoi i wynebu ei dynged gan *Meinir*. Cyfansoddodd *Cymraes* ei hymson ar ffurf dyddiadur a chawsom fanylion ei orchestion eisteddfodol cyn bwrw ati ar awdl Eisteddfod Penbedw. Hoffais yn fawr ymson *Hedd Wyn* wrth i'r arwr fynegi ei ofnau a'i amheuan wrth baratoi i fynd i ryfel ac ymadael a'i deulu a'i gariad Jini Owen. Fel yn achos nifer o'r cystadleuwyr eraill llwyddodd *Hedd Wyn* i gyfleu'r tensiwn yn y ffos wrth i'r milwyr baratoi am chwiban y swyddog i fynd 'dros y top'. Gwendid *Hedd Wyn* oedd y cyflwyniad - amryw o wallau yn yr iaith y dylid wedi eu cywiro cyn cyflwyno'r sgript derfynol

Winston Churchill oedd arwr *Owain*- ymson deallus a diddorol wrth i'r prif weinidog annerch y dorf yn Whitehall ar Fai 8fed ( diwrnod B-E). Martin Luther King oedd dewis *Liliwen (61)* - mae'r arwr yn adlewyrchu o'i gell ar y digwyddiadau erchyll a dirdynnol y bu ef yn dyst iddynt -yn mynd dan groen y cymeriad ac yn cyflwyno ymson didwyll a phwerus - ymhlith y goreuon. Araith Malala Yousafzai wrth dderbyn gwobr heddwch Nobel oedd dan sylw gan *Seren ac Elsi Wyn* - y ddwy yn wybodus iawn am yrfa Malala a'i hymdrechion i ddileu



rhagfarn yn erbyn addysg i ferched - gormod o wallau iaith gan *Seren* ac arddull a mynegiant *Elsi Wyn* yn llafurus mewn manau.

Er i *Gerddoriaeth* ddewis arwr cymwys yn Anne Frank method ei chyflwyniad argyhoeddi - y stori braidd yn ddryslyd a'r mynegiant yn wallus. Yr enwog Mari Jones oedd dewis *Mari* - cawsom flas ar y daith 'hanesyddol' i'r Bala - cynnal diddordeb wrth ddisgrifio'r daith ond fawr ddim am ei chymhelliad i wneud y daith. Mae'r daith yn un llwyddiannus, ond onid Mari ei hun yw'r arwr ac nid Thomas Charles!

Ymson grymus, ddramatig a chyfoethog ei hiaith gan *Ammas* - dirnadaeth ddofn o yrfa a ffawd drist yr athrylith Alan Turing - ol ymdrech ar y delweddau hwnt ac yma ond ymson didwyll a wnaeth argraff -yn uchel yn y gystadleuaeth. Ymson pwerus a didwyll gan *Sianiflewog* am deimladau Iesu Grist wrth iddo gario'r groes i Golgotha. Mynegiant aeddfed gan berson o argyhoeddiad cryf - angen cywiro a thrwsio'r copi ar gyfer y gystadleuaeth er hynny.

Cawsom ymsonau safonol a chredadwy gan arwyr y meysydd chwarae - yn eu plith Usain Bolt (*Bollten*), Gareth Bale (*Gareth Bale*), Hadleigh Parkes (*Carotsen*) a Lionel Messi (*Llew*). Cyflwyniadau yn llawn cyffro gan ymgeiswyr oedd yn adnabod eu harwyr yn dda - sylwebyddion radio a theledu'r dyfodol yn ddi-os! Stori am frwydr bersonol yr arwr i gystadlu yn y gemau Paralympaidd sydd gan *Olympig*, wedi iddo/iddi golli coes mewn damwain car. Ymson gryf yn llawn emosiwn a buddugoliaeth wedi blynyddoedd o frwydro.

Mae damweiniau a thrychinebau erchyll yn aml yn arwain i weithredoedd arwrol gan unigolion - bu hyn yn wir yn achos amryw o'r cystadleuwyr - *Gruff* (gwr tan), *Eira* (ci achub yn yr Alpau), *Swigen* (gorooswr 9/11), *Wmffra* (gweithiwr yn atomfa Chernobyl) a *Gwenynen* (gwr ambiwlans yng nghyngerdd Ariane Grande ym Manceinion 2017).

Amrywiol

Ymson wreiddiol a difyr gan *Cymu* - mae'r awdur yn gofyn 'beth yw arwr' ac yna yn chwilio am rinweddau/nodweddion arwr ynddo ef eu hun ac yn datgeli i'r darllenydd ei gryfderau a'i wendidau personol. Ymson ddadansoddol ac unigryw wnaeth hawlio fy sylw.

Cymeriad mewn gornest gem ar y cyfrifiadur oedd arwr '*Y Chwaraewr*' - maes na wn i fawr ddim amdano! Ond mae gan yr awdur allu i hoelio sylw ac i gyfleu cyffro gwrthdaro'r gwrthwynebwyr yn hynod effeithiol.

Stori am fwlio o fewn yr ysgol sydd gan *Lili Wen (47)* - mynegiant yn wallus mewn manau a'r ymson yn hirwyntog. Ymson drist gan Beca (*Liliwen D1228*) - claf ar ei gwely angau a'i ffrindiau wedi troi cefn arni - mynegiant yn gloff mewn manau a'r testun yn siŵr o ddiflasu'r darllenydd. Rhannu'r wefr o ganu mewn band ar lwyfan byw wna *Chez Whizz* yn ddigon hwylus tra bod *Rhymni ac Iar Fach yr Haf* yn ymdrin â pherthynas unigolion a'i gilydd - digon o brawf gallu ysgrifennu creadigol yma - amau pa mor berthnasol i'r testun oedd yr ymsonau.

Hoffais ymdrech *Beti* - dawn yma i ddweud stori yn hwylus a diymdrech. Hwyrach mai stori fer dda yw hon yn hytrach nac ymson?

Mam oedd arwr ymson *Brawd Mawr* wrth iddi achub bywyd Hannah ei merch trwy anrhegu un o'i harennau. Ymson wedi ei chynllunio'n ofalus yn llawn teimlad a dwyster. Defnydd da

o ddeialog i gyfleu'r ddrama - gwnaeth yr ymson hon gryn argraff arnaf - ymhlith y goreuon yn y gystadleuaeth

Ymson yn llawn cyffro gan *Gwallt cyrliog* - gwr a ystyriai ei hun yn ddiwerth ac isel ei hunan-barch yn troi yn arwr wrth achub bywyd un o'i ymosodwyr - arddull ystwyth a mynegiant craff - creu awyrgylch thensiwn yn yr ymson.

Teifi'r ci sy'n siarad yn ymson *Llinos Werdd* - mae'n son am ei brofiadau yn amddiffyn eiddo ei berchennog rhag cath drws nesa' - dawn dweud stori - arddull gynnil a naturiol - wedi ei gosod yn uchel yn y gystadleuaeth. Mae'r un peth yn wir am ymgais *Cas Pensiliau* - ymson mewn dwy ran - 'Gar Gwych' - arwr 'stereo-type' y ffilm a'r comig yn 'brolio' am ei allu a'i orchestion sy'n siarad yn y rhan gyntaf (arwr rhan amser); darlun go-wahanol o arwr a gawn yn yr ail ran - Mam (arwr llawn amser) sy'n gweithio nos a dydd er lles ei phlant - hi yw yr arwr go iawn - a'i henw - 'Alaw Ardderchog' - ymson gwreiddiol a chogleisiol.

Yr awdur llyfrau plant J.K.Rowling oedd arwr ymson *Dawnswraig*. Mae'r mynegiant a'r arddull yn hynod o syml ac yn mynnu sylw'r darlennydd. Cawn rannu syniadau'r awdur wrth iddi eistedd mewn caffi yn gwarchod ei merch fach Jessica. Mae'r ymson wedi ei chynllunio'n ofalus a chawn gipolwg hyfryd ar sut mae syniadau am gymeriadau i'w nofel yn datblygu. ...' mae'r stori a'r syniadau yn llifo fel dŵr ar ôl storm nawr!' Mynegiant hyfryd a di-ymdrech - pleser ei darllen.

Heb os *Hogan o Pesta* oedd eiddo'r ymson mwyaf gwreiddiol a doniol yn y gystadleuaeth wrth iddi ymddangos ar lwyfan S4C ar faes Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd yng ngwisg Cyw. Mae'r sioe yn mynd yn hwylus tan i bry' copyn ddechrau dringo i fyny coes Cyw, ac yna mae'r helynt yn cychwyn! Hiwmor afiaethus mewn iaith lafar iach. Cyflwyniad penigamp a fu'n bleser i'w ddarllen!

Ymson am arwr a gafwyd gan *Swyn* - yr arwr yw ei thaid sy'n dioddef o ganocr. Hoffais ei harddull o'r cychwyn wrth iddi rannu ei theimladau a'i phryderon i'r newyddion trallodus. Mae'r ymson yn llifo'n ddiymdrech a'r mynegiant yn ddiwyll a thrawiadol ac yn mynnu sylw'r darlennydd. Dyma'r ymson a gafodd yr argraff fwyaf arnaf yn y gystadleuaeth - triniaeth sensitif gan berson ifanc o bwnc anodd.

Mae ymsonau *Hogan o Pesta* a *Swyn* yn gwbl wahanol o ran eu cynnwys- y ddwy er hynny wedi taro'r nod. O ychydig mae *Swyn* yn mynd a'r wobwr gyntaf, *Hogan o Pesta* yr ail a *Dawnswraig* y trydydd am ymson J.K.Rowling.

**Rhyddiaith Bl.10 ac 11****Beirniad: Wayne Williams****Rhif: 386/1 Eira**

Stori effeithiol am golli ffrind agos (o bosibl chwaer) trwy hunan-laddiad a'r euogrwydd am beidio â sylwi bod angen help arni. Ceir disgrifiadau da o'r hunllef mae hi'n ei fyw wrth geisio parhau - gyda chyffuriau, meddygon a seicolegwyr. Mae hi'n credu bod pobl yn ei beio am fethu â sylweddoli bod angen help ar Eira ar ôl marwolaeth ei thad.

**Rhif: 386/2 Cain**

Stori gref iawn am effaith hunan-laddiad ar ffrind gorau. Dechreua'r stori mewn ffordd drawiadol gan dynnu'r darllynydd i ganol y tristwch a'r dicter. Ceir disgrifiadau da o ymateb yr ysgol a ffrindiau eraill a dysgwn am berthynas y ddwy wrth i'r awdur/es gofio'r dyddiau a fu. Diwedd glo trawiadol iawn sydd i'r stori "Mae fy mywyd i wedi difetha – i gyd oherwydd "cymwynas" Cain. Achos tristwch fi – doedd o ddim yn gymwynas. Ac fydd o byth. Byth bythoedd."

**Rhif: 386/3 Gaeaf**

Stori ffuglen wyddonol arbennig o dda. Mae Emrys yn deffro o drwmwsg heb wybod ble y mae ac yn methu â chofio dim. Yn raddol, trwy gymorth haid o robotiaid (sy'n "atomau yn arnofio yn yr awyr tan i rywun eu galw") fe ddysgwn ei fod ar LOR (Llong Ofod Rhyngalaethol) yn un o 5,000 o bobl eraill. Ond fe ddigwyddodd drychineb – haint yn yr awyr – a dim ond fe a Cerys Llywelyn sydd ar ôl. Dysgwn hefyd fod y robotiaid wedi "uwchraddio" Emrys a Cerys fel nad oes modd iddynt farw. Datblyga'r stori mewn ffordd afreal ond credadwy hyd nes i Emrys, ynghanol ei alar ar ôl marwolaeth Cerys, gipio llong ofod fach a dychwelyd at y ddaear. Yn anffodus roedd yr haint, oedd wedi lladd bron y cyfan o'r 5,000 o bobl, wedi tarddu o'r ddaear ac mae'r blaned yn ddiffaith. Gorffena'r stori mewn ffordd drawiadol ac arswydus – roedd yr "uwchraddio" yn golygu bod Emrys yn "anfarwolun. A dyna lle y bu Emrys yn sgrechian a bloeddio fel gwallgofddyn am weddill tragwyddoldeb."

**Rhif: 386/4 Seren**

Stori dda am fenyw yn gwneud cymwynas i'w ffrind gorau sef, cario babi ar ei chyfer. Ceir hanes eu bywydau cynnar – ffrindiau bore oes ac yna'r siom o fethu â chael plant. Yna'r cynnig o fod yn "surrogate" a'r amheuan yn ystod y naw mis. Ond yn y diwedd "un peth oedd yn sicr roedd hi'n gymwynas fawr ac yn un na fyddwn byth yn anghofio".

**Rhif: 386/5 Eira Wen**

Dechreua a gorffena'r stori gyda sŵn sgrech a seiren – cloc larwm a seiren heddlu. Mae'r person yn gwneud cymwynas â chymydog sy'n sal – mynd i'r siop i brynu papur newydd – ond daw ffrwydriad bom i ddinistrio'r cyfan. Ceir disgrifiadau da o sioc a theimladau'r person wrth i'w bywyd "llithro i ffwrdd yn araf bach".

**Rhif: 386/6 Draenog Llywelyn**

Stori'n seiliedig ar hanes bywyd Suzanne Spaak, Ffrances gafodd ei llofruddio gan y Natsiaid am guddio plant Iddewig yn yr Ail Ryfel Byd. Mae'n wych i feddwl bod hanes y fenyw ddewr hon yn cael ei chofio 74 o flynyddoedd ar ôl ei marwolaeth a hynny yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd.

Datblyga'r stori'n bennaf trwy ddeialog effeithiol iawn a disgrifiadau byw iawn o Paris dan orthrwm y Natsiaid. Daeth y darn hwn yn agos iawn at fod yn y tri uchaf.

**Rhif: 386/7      Angharad**

Stori fach dda am ymwelydd oriau mân y bore â theulu fferm. Mae'r ymwelydd yn ddigon ryfedd ei olwg ac mae ganddo gi bach coll yn ei feddiant. Mae'n gadael y ci bach gyda'r teulu gan addo y byddai'n ffonio petai'n dod o hyd i'r perchennog. Mae'r ci'n ymgartrefi'n dda gyda'r plant yn dwlu arno. Yno, un bore canodd y ffôn "Rhewodd calonau'r plant wrth iddynt wrando o ben y grisiau." Ceir disgrifiadau da o fywyd y fferm a'r teulu bach ynghyd ag elfen o ddirgelwch.

**Rhif: 386/8      Bisgedi**

Stori am fenyw'n cael ei deffro ganol nos gan ddyn yn gwthio i mewn i'w thŷ. Mae'n cario bocs ac yn gofyn iddi'i gadw iddo fel cymwynas ac yna'n rhedeg allan. Dechreuad da ac annisgwyl ond mae tro yng nghwt y stori. Arian wedi'i ladrata o'r banc sydd yn y bocs ac fe gyhuddir Bethan o'i ddwyn. Gorffena'r stori gyda Bethan yn aros i gael ei chludo i'r ddalfa.

**Rhif: 386/9      Tân Gwyllt**

Stori fach effeithiol iawn am ferch a'i ffrind Carwyn. Mae Carwyn yn danfon neges yn ystod y nos er mwyn siarad ond mae Hanna'n gwrthod. Yna, daw'r newyddion y bore canlynol bod Carwyn wedi'i ladd ei hun ac mae Hanna'n beio'i hun. Ceir disgrifiadau da o'r teimlad bod rhywbeth wedi digwydd, Carwyn ddim yn ateb ei ffôn, y Pennaeth yn dod i'r ystafell ddosbarth a phawb yn mynd i'r neuadd, ac yna'r cyhoeddiad a byd Hanna'n darnio. "Fy mai i yw hyn. Os oeddwn i wedi siarad ag e neithiwr, fyddai hyn heb ddigwydd. Un ffafr ofynnodd e amdani. Un. Fy mai i ... fy mai i ... fy mai i ..."

**Rhif: 386/10      Blodyn Tatws**

Stori ryfedd am fachgen yn cytuno i gario parcel at hen wraig ac yna'r ergyd bod y parcel yn cynnwys cyfrinachau fydd yn dechrau'r Trydydd Rhyfel Byd. Nid y stori cymaint, ond dawn yr awdur i ddal naws freuddwyol y cyfan yw cryfder y stori. Mae'r disgrifiadau o'r daith, y glaw, yr afrealiti a'r diffyg dealltwriaeth o pam mae e wedi cytuno i wneud y gymwynas yn effeithiol iawn, yn ogystal â'r ergyd annisgwyl ar y diwedd.

**Rhif: 386/11      Fi**

Cymysgedd effeithiol o ymson (gan Hedd Wyn) wedi'i seilio ar olygfeydd o'r ffilm a phytiau o'i farddoniaeth. Y fframwaith yw ymgais Hedd Wyn i ysgrifennu teyrnged i gyfaill sydd wedi marw. Codir cwestiynau ynghylch rôl y Capel/Eglwys wrth annog bechgyn i fynd i ryfel a'r pwysau sydd ar bobl a theuluoedd i fynd i ymladd. Yn effeithiol mae'r golygfeydd cyfarwydd o gefn gwlad yn ei atgoffa o ddelweddau'r ffosydd.

**Rhif: 386/12      Rhosyn Goch**

Stori fach ysgafn a doniol am berthynas a chymwynas rhwng dau gymydog drws nesaf. Mae gan yr awdur/es ddawn arbennig iawn i greu deialog ddoniol iawn sydd yn dylunio cymeriadau'r ddwy. Mae'r sgwrs a'r digwyddiadau'n gredadwy iawn. Mae ci un wedi dinistrio Geraniums y llall flynyddoedd ynghynt ac mae dal yn destun gwrthdaro, herio a gorfodi cymwynas. "A dyna fe, y glo mân. Geraniums mân fel mae'n digwydd!" Clyfar iawn!

**Rhif: 386/15      Austin Post**

Stori ddiddorol iawn am ddyn cyfoethog yn rhoi'i arian yn dawel i elusennau dros y blynyddoedd ond yn cael ei golffarnu'n lleol am beidio â'i wario'n lleol. Ceir disgrifiadau da

iawn o'r angladd, natur, y sgysiau a'r cymeriadu trwy'r sgysiau. Mae hyn yn bendant yn gryfder gan yr awdur/es.

“Stopiodd. Ceisiodd ddistewi ei meddwl. Anadlodd yn ddyfn wrth arogl'r hanes cyfoethog o'i hamgylch. Meddylodd am Gerald Roberts. Y dyn nad oedd neb yn ei 'nabod. Dim ond trwy hanesion pytiog a storïau sydyn. Wel, dyma ei stori. Dyma oedd Gerald Roberts. Y dyn distaw oedd yn cyflawni cymwynasau cudd o'i fwthyn bach ym Mro Arfon”.

**Rhif: 386/17      Twmffat**

Darn crefftus iawn gan yr awdur/es sydd yn ymylu ar lif yr ymwybod. Dechreua mewn ffordd effeithiol iawn “Doeddwn i 'rioed yn credu mewn gwyrthiau”. “Pruddglwyf sydd bob tro yno yn y diwedd”.

Ceir nifer o is-benawdau sydd yn datblygu'r stori – “Llithro”. “Anadl”. “Pla”. – am fachgen sydd yn credu na fydd yr un ferch yn ei garu, trwy'r datblygiad o berthynas hyd at y siom derfynol, ddisgwyliedig – “Pruddglwyf sydd bob tro yno yn y diwedd. Pruddglwyf yw'r unig beth sydd yno yn y diwedd. Dyna i gyd sydd gen i i ddweud.” Effeithiol dros ben!

**Rhif: 386/18      Egni**

Stori gyflawn ac effeithiol am ferch yn dechrau ar ei blwyddyn gyntaf yn yr ysgol uwchradd. Yno, mae'n cael ei bwlio am ei golwg, ei dillad, marciau da hyd nes i ferch arall ei hamddiffyn. Daw'r ddwy yn ffrindiau mynwesol ac wedyn yn colli cysylltiad ar ôl gadael yr ysgol. Blynnydoedd yn ddiweddarach maent yn cwrdd eto ac mae cyfle i dalu nôl am y gymwynas. Ceir disgrifiadau da a chredadwy o fywyd yr ysgol a'r ail gwrdd.

**Rhif: 386/19      Pedro**

“Cymwynas” y stori hon yw helpu “ffrind”, Gareth, cael gwared ar gorff hen ddynes sydd wedi'i llofruddio yn ystod lladrad yn ei thŷ! Agora'r stori mewn ffordd effeithiol iawn wrth i'r ddau straffaglu trwy ffynwent yn y nos yn cario'r corff mewn bag er mwyn ei rhoi yn yr afon. Mae'r person sy'n adrodd y stori'r ofni Gareth llawn cymaint â'r weithred. Ceir disgrifiadau da, eithaf arswydus, o'r daith a'r weithred o roi'r corff yn yr afon. Yn y diwedd, sylweddola wir perygl ei “ffrind” a'i sefyllfa yntau yn y broses ac mae e'n ffonio'r heddlu. Llwydda'r awdur/es i gyfleu'i ofn o'r sefyllfa trwy sgysiau effeithiol a grymus yn ogystal â disgrifiadau realistig.

**Rhif: 386/20      Dawnsraig**

Stori bwerus a dirdynnol am gyfeillgarwch dwy ferch ysgol a barhaodd trwy'u bywydau. Roedd Sara wedi colli'i mam yn ifanc ac wrth i Manon ddod i'r ysgol daethant yn ffrindiau. Mae'r disgrifiadau o'r cyfeillgarwch yn llenwi'r gwacter ym mywyd Sara yn ardderchog. Yn anffodus, wrth iddynt fynd yn hŷn a Manon yn cael plant, daw'r ergyd – mae Manon yn datblygu cancr y fron. Ceir disgrifiadau arswydus o'r ysbytai, y triniaethau, yr ofn a'r gwanhau – “Yn lle cael coctel alcoholig wrth wyllo ffilm ... bu'n rhaid i Manon gymryd coctel o dabledi phob bore cyn bwyta”. Gyda marwolaeth Manon mae Sara'n mabwysiadu'i merched – “.... dyna'r gymwynas orau i mi ei gwneud erioed”. Gwaith ardderchog!

**Rhif: 386/21      Pili Pala**

Stori am fenyw, Alaw, sy'n gweithio dros elusen sydd yn cynorthwyo adeg argyfyngau. Mae corwynt enfawr wedi digwydd yn Florida ac mae hi'n cael ei galw i helpu. Ceir disgrifiadau da o'r llanast a hithau'n helpu achub bywyd bachgen sydd wedi'i niweidio.

**Rhif: 386/22      Coeden**

Stori effeithiol iawn am blant yn dod at ei gilydd adeg marwolaeth eu tad. Yr un yw'r tensiynau – dau wedi symud i ffwrdd, yr ifancaf wedi aros ar ôl er mwyn gofalu am yr hen ddyn, y gofid o bwy sy'n cael beth yn yr ewyllys. Yna daw'r sioc o sylweddoli bod y tad wedi gadael peth o'r fferm i ddyn nad oeddynt erioed wedi clywed amdano. Ceir disgrifiadau da iawn gan yr awdur/es – “Disgynnodd tawelwch llethol ar draws y gegin fel amdo trwm. Yna dechreuodd coes Gwilym grynnu yn erbyn coes y bwrdd. Astudiodd Carys ei hewinedd yn fanwl iawn unwaith eto ac anadlais innau yn ddwfn.” Mae dawn gan yr awdur/es i greu sgysiaau credadwy a gafaelgar sydd yn datblygu'r stori'n effeithiol ac sydd yn adlewyrchu natur hunanol a checrus rhai o'r cymeriadau.

**Rhif: 386/23      Taten**

Stori llawn cynnwrf, trais, siom a rhyddhad! Lleolir y stori yng Ngogledd Affrica yng nghanol rhyfel cartref ac mae'n olrhain hanes un dyn a'i gi yn ceisio dianc o erchylltra'r rhyfel. Ceir disgrifiadau grymus o'r bomio, saethu a'r trais sydd o gwmpas Hatem wrth iddo wneud cymwynas â rhywun sydd yn ddihiryn.

**Rhif: 386/24      Mwnci Gwyllt**

Stori fanwl iawn ac arswydus wrth i Enid llofruddio'i gŵr cyntaf ac yna'n sefydlu perthynas â dyn newydd trwy gyfrwng safle dêtio ffeindiocariad.com. Stori o dwyll a llofruddiaeth arall sydd yn datblygu wrth i Enid barhau â'i chynlluniau dieflig! Mae dawn ddisgrifio a chreu sgysiaau credadwy, sydd yn symud y stori yn ei blaen, gan yr awdur/es hyd nes cyrraedd y diwedd glo trychinebus. Da iawn, wir!

**Rhif: 386/25      Cochyn**

Stori dda iawn am dwyll, gwrth-dwyll a brad ym myd ysbïwyr Prydain a Thwrci. Dechreua'r stori mewn ffordd drawiadol iawn a dysgwn am gefndir y ddau gymeriad. Mae'r stori'n datblygu'n gyflym trwy gyfrwng y sgysiaau a'r disgrifiadau effeithiol a manwl o deithio trwy Ewrop a'r paratodau ar gyfer y llofruddiaeth. Yna, fe ddaw tro yn y stori a thro arall cyn y diwedd sydd yn gadael y darllenydd yn syfrdan wrth sylwi gwir ystyr y “gymwynas”. Arbennig o dda!

**Rhif: 386/26      Anelog**

Stori effeithiol dros ben am ferch yn darganfod mai'i modryb a nid ei mam sydd wedi'i magu hi a bod ei mam go iawn yn llofrudd ac yn y carchar. Wrth ymweld â'i mam yn y carchar dysgwn am y rheswm pam roedd ei mam wedi lladd ei thad a beth yw ystyr y graith ar ei braich. Mae dawn ddisgrifio ardderchog gan yr awdur/es a'r gallu i greu naws synfyfyriol, arall-fydol bron, wrth i gwestiynau, ofnau ac amheuon chwyrlio trwy feddwl Manon – “Dwi'n teimlo'r gwaed yn byrlymu yn fy ngwythiennau. Teimlaf y llythyr yn gyllell yn fy nghefn. .... Fi...Fi yw'r baich, y poen, y fricsen di-bwrpas, blin mae Modryb Mari yn ei llusgo gyda hi”.

**Rhif: 386/28      Y Crythor**

Stori fach ddifyr am efeilliaid ac un ohonynt yn priodi. Mae'r llall yn cael y gwaith o warchod y fodrwy briodas tra bod ei chwaer ar ei mis mêl – ond yn llwyddo i'w cholli! Ceir hanes yr helynt wrth geisio prynu fodrwy gyffelyb a diwedd glo annisgwyl. Mae'r awdur/es yn llwyddo i greu golygfeydd, digwyddiadau a sgysiaau byw sydd yn gwneud y cymeriadau yn rhai real iawn a'r “tinc o binc” yn cloi'r cyfan yn glyfar iawn.

**Rhif: 386/29      Chiz**

Stori effeithiol dros ben am effaith marwolaeth mam ar y chwaer a brawd sydd ar ôl. Mae'r ferch wedi gadael cartref ers blynyddoedd ar ôl gweld ei thad yn bwrw ei mam a nawr bod y fam wedi marw'n teimlo'n ddig mai dim ond cloc a gafodd ar ei hôl. Mae'n dwyn hanner yr arian gafodd ei brawd yn yr ewyllys ond ceir tro annisgwyl a gwir gymwynas ar ddiwedd y stori. Mae gallu gan yr awdur/es i greu darluniau (boed yn ddisgrifiadau neu'n ddeialogau) realistig a chredadwy sydd yn symud y stori yn ei blaen yn grefftus iawn. "Teimla Angharad ei gwaed hi'n oeri wrth deimlo oerfel pur y corff dieithr o'i blaen. Dyhea am goflaid ei mam, i waredu pryder ac unigrwydd, i'w rhyddhau o uffern galar. Dechreua'r dagrau lifo, un wrth un wrth un." "Helo?" Daw llais plentyn oddi ar ochr arall y lein. Llais diniwed, melys. Mae'n troi arna' i". "Daaaaaad! Mae 'na fenyw ar y ffôn yn gwybod fy enw i. Plant ...ych". "Teimlaf boen sydyn yn fy mol; poen wahanol yw'r un hwn. Poen fydd wedi'i chreithio ynof am byth".

387

**Rhyddiaith BI 12 ac 13**

**Unrhyw ffurf ar y thema – Newid**

**Beirniad – Alun Jones**

Cafodd y cystadleuwyr y rhyddid i ddewis unrhyw ffurf ar y thema Newid. Gwnaeth hyn y gwaith o ddarllen yn ddiddorol wrth i'r cystadleuwyr ddewis amrywiaeth o ffurfiau gan gynnwys araith, ysgrif yn mynegi barn, pennod agoriadol nofel, portread, ymsonau, dyddiaduron ac wrth gwrs storiâu byrion. Rhoddais y prif bwyslais ar safon greadigol y cystadleuwyr, gan faddai i'r mân wallau ond nid i'r gwallau cystrawennol. Byddai wedi bod yn fuddiol i'r cystadleuwyr ddychwelyd at eu cyfansoddiadau wedi cwblhau'r ail neu'r trydydd drafft a phenderfynu pa ansoddeiriau a delweddau sy'n hanfodol i'w cynnwys. Llwyddodd y goreuon osgoi cynnwys cymariaethau a delweddau sydd wedi eu defnyddio i ennyn sylw ac i greu argraff.

Cefais fy mhlesio gan gyfansoddiadau'r 35 o ymgeiswyr, ond roedd angen dychymyg, y gallu i saernïo darn yn gelfydd a'r gallu i ymatal o safbwynt crefft a chynnwys i gyrraedd y brig.

Sylwadau unigol byrion ar y cyfraniadau:

Rhif 387/1: Neb

Portread o berson sy'n gwerthu'r *Big Issue*. Portread diffuant o Carlos o Syria ac yn llwyddo i ffrwyno'r teimladau. Yn defnyddio adeg y Nadolig i bwysleisio'i dlodi a gwneir hynny hefyd drwy gyferbynnu ei fywyd â bywyd y ci. Ni theimlaf fod y newid sydyn yn agwedd yr hwdi bygythiol wedi llwyddo i'm hargyhoeddi, ond llwyddodd y ferch fach wrth gloi'r stori fy argyhoeddi'n llwyr. Anodd fu treiddio i wir hanfod ei druenusrwydd, ond dangosodd Neb y gallu i greu trosiadau dyfeisgar. Gwaith addawol.

Rhif 387/2: Non

Problemau yn ymwneud â bwyta adeg pen-blwydd ei chwaer a gawn gan Non a gwelwn ei bod yn personol i'r salwch. Er bod diffuantrwydd yn y gwaith, eto i gyd doedd dim digon o newydd-deb i hawlio sylw'r darlennydd.

Rhif 387/3: Bet

Darlunio perthynas rhwng dwy chwaer a gawn gan Bet a dysgwn fod Siwan, yr hynaf, yn sâl ac yn marw. Ymsonau a gawn ac mae ambell ddelwedd yn hawlio sylw ac yn dangos addewid. Gochelwch rhag i'r cwestiynau rhethregol fod yn rhy ystrydebol. Teimlaf fod y gwrthgyferbyniad yn agwedd ei chwaer tuag at Siwan, rhwng y rhan gyntaf a'r ail yn digwydd yn rhy sydyn. Mae angen cyfnas ehangach i drafod sefyllfa mor ddyrws.

Rhif 387/4: Malan

Tybed ydych chi wedi rhoi digon o ystyriaeth i arddull dyddiadur? Teimlwn fod y gwaith yn fwy o gyfres o ymsonau nag o ddyddiadur. Gochelwch rhag i'r cwestiynau rhethregol droi'n ystrydebol. Syniad da oedd rhoi sylw i Jeff y ci am ei fod yn cyflwyno elfen mwy personol i'r gwaith. Teimlaf fod angen i'r elfen bersonol fod yn amlycach.

Rhif 387/5: Angharad

Cyfres o ymsonau ar dri chyfnod arbennig a gawn. Wedi dewis yr arddull briodol mewn ieithwedd lled lafar ac wedi llwyddo osgoi cynnwys cymariaethau sydd yno i dynnu sylw ac i greu argraff. Yn ystod yr ymson agoriadol mae hi'n ddeunaw oed ac yn ysu am fynd i'r coleg



wrth orwedd yn ei gwely, a chawn yn achlysurol ein hatgoffa o hynny. Hon yw'r ymson sy'n rhagori, efallai am fod yr awdur yn byw'r profiad ar hyn o bryd. Ni chyrrhaeddodd yr un safon yn yr ail ymson a hithau'n fam i ddau o blant. Syniad da yn y clo a hithau'n hen nain.

Rhif 387/6: Nel

Agoriad trawiadol er y byddai ychydig o docio wedi talu ar ei ganfed er mwyn osgoi ail adrodd yr un syniadau. Wedi dewis dyddiadur fel ffurf er na fabwysiadwyd arddull dyddiadur, ond yn hytrach defnyddiwyd y trydydd person ac mae hynny'n ddigon derbynol. Yr hyn sydd ar goll yw diffyg datblygiad. Tybed ydyw hwn yn gynfas rhy eang i stori fer er mwyn gwneud cyfiawnder ag ef?

Rhif 387/7: Maesglas

Wedi dewis dyddiadur fel ffurf ac mae hynny'n hollol addas. Hoff o'r cynildeb wrth ddisgrifio'r ddamwain yn yr ail ddarn. Yn y gwaith cawn ambell sylw a disgrifiad cofiadwy: 'unigedd yn cymryd ffurf y diafol; y gorffennol wedi cuddio fy nyfodol; teimlo popeth ac yn teimlo dim.' Byddwch yn ofalus rhag gordefnyddio cwestiynau rhethregol. Efallai fod angen mwy o sylw ar boen y golled yn y dyddiadur, er mor anodd disgrifio hynny'n gynnil. Gwaith addawol.

Rhif 387/8: Rhosyn

Cawn ambell ymson sy'n dangos addewid ac yn codi'r gwaith i dir uchel. Yn anffodus, mae'r dewis o ambell air yn ddiffygiol a'r mynegiant ar adegau'n drwsgwl. Teimlaf nad yw Rhosyn wedi ymdreiddio'n ddigonol i mewn i golled Cari a bod y diwedd glo'n ddull rhy hawdd o gloi'r stori.

Rhif 387/9: Daffodil

Gwnaeth Daffodil greu bwgan iddi hi ei hun yn yr ymson drwy osod Caryl yn berson nad yw'n cyfathrebu â'i brawd na'i chwaer. Drwy ei chynnwys fel unigolyn ar wahan i bawb ond ei mam efallai, o reidrwydd mae hwn yn ddarn unffurf o ran syniadau ac arddull.

Rhif 387/10: Dant-y-llew

Hoff iawn o'r blogiau agoriadol sy'n llwyddo i gyfleu merch ifanc yn gwrthryfela. Llwydda i gyfleu hynny, er rhaid holi a ydyw wedi newid digon ar ei harddull i'w gynnwys fel blog. Ond nid hynny yw'r bwgan. Yr hyn sy'n anodd ei dderbyn ydyw mor hawdd mae'n newid ei hagwedd tuag at yr iaith Gymraeg yn gyfan gwbl. Angen meddwl yn ddyfnach i sicrhau bod y newid yn gredadwy.

Rhif 387/11: Llygad y dydd

Nid yw hon yn stori uchelgeisiol, ond eto i gyd rhaid cyfaddef eich bod wedi llwyddo i'w chyflwyno'n llwyddiannus. Teimlaf fod y ddawn gennych i anelu'n uwch a bod yn rhaid i chi wneud hynny er mwyn ennill gwobr mewn cystadleuaeth mor safonol.

Rhif 387/12: Llolwyn

Hanes ffermdy fynyddig a blas y pridd ar y disgrifiadau a'r digwyddiadau. Llauer o ymadroddion pert sy'n gweddu'n hollol i'r darn ac a roddodd bleser i mi wrth eu darllen. Roedd cyfle i ddatblygu'r darn hwn yn arbennig gan fod y diwedd glo'n digwydd yn llauer rhy sydyn.

Rhif 387/13: Swyn

Cofnod mewn dyddiadur a gawn sy'n disgrifio effaith lladd ffrind gorau mewn damwain car. Yn anffodus mae tueddiad yn y darn i droi yn ei unfan ac ychwanegir at hynny gan y ffaith

fod arddull y darn yn unffurf. Sylwer bod pedwar o'r paragraffau yn agor gyda'r ferf 'Dwi'. Ai'r ffurf sydd wedi eich caethiwo? Teimlwn fod angen datblygiad.

Rhif 387/14: Gwenllian

Y perygl o gau ysgol wledig yw cefndir y stori hon a chawn ymateb hynafgwr, Tegwyn Jones a merch ifanc 6 blwydd oed i'r digwyddiad. Hel atgofion am ei blentyndod wna Tegwyn 'am ei fyd diniwed yn ei blentyndod'. Er nad atgofion melys mo'r cyfan gan i dri o'r pentref gael eu lladd. Y ddawn gan Gwenllian i greu darluniau credadwy, a theimlaf y gall rymuso'r ddawn honno drwy fireinio ychydig ar y mynegiant.

Rhif 387/15: Gŵr y Gwili

Un o'r storiâu mwyaf heriol yn y gystadleuaeth efallai. Plentyn a gawsai ei fagu gan ei fam ac un sy'n chwilio am ei dad yw'r prif gymeriad. Wedi darganfod mai'r seiciatrydd a fanteisiodd ar ei fam ydyw aiff i ymweld ag ef wedi ei arfogi â chyllell. Hoff iawn o adeiladwaith y stori ac mae nodiadau'r fam yn ychwanegu at y stori. Yn anffodus nid yw'r mynegiant gan Gŵr y Gwili ar hyn o bryd i drosglwyddo'r stori'n llwyddiannus.

Rhif 387/16: Buddug

Pam y dylai S4C symud ei bencadlys o Gaerdydd i Gaerfyrddin? Cymraeg graenus a'r gallu i ymresymu'n amlwg iawn ac o ganlyniad cafwyd araith gref. Hoffwn petaech wedi trafod y gwrthddadleuon megis datganiad pennaeth S4C na fydd ef yn symud i fyw yng Nghaerfyrddin ond yn hytrach yn teithio yno o ardal Caerdydd. Ai teithio fydd eraill o staff S4C? Pa effaith gaiff hynny?

Rhif 387/17: Ifor Preis

Pennod agoriadol nofel. Tasg heriol iawn. Gafael dda ar y Gymraeg, ond teimlwn nad ydych wedi astudio digon ar benodau agoriadol nofelau da. Does dim digon o ddyfnder ym mherthynas Angharad a Tom i gynnal nofel. Nid dweud yn blwmp ac yn blaen bod Tom mewn cariad â hi y dylsech wneud ond darlunio hynny.

Rhif 387/18: Glas

Mae Glas yn ymhyfrydu yn ei g/allu i ddisgrifio a gwelir hynny'n amlwg yn y paragraff cyntaf. Mae angen dewis a dethol yr ansoddeiriau a'r delweddau a ddefnyddir yn hytrach nag ymgolli i arddangos eich dawn. Cawn bortreadau diddorol o'r cyd-deithwyr ac mae'r disgrifiad o'r ddamwain yn ddigon cynnil. Dawn yma ond mae'n werth dychwelyd at y gwaith a phenderfynu pa ansoddeiriau a delweddau sy'n hanfodol i'w cynnwys.

Rhif 387/19: Ann Olwen

Aiff Ann Olwen â ni i'r Rhondda ac i'r flwyddyn 1930 gan ddisgrifio miloedd o weithwyr dros y ffin yn heidio i'r Rhondda gan newid naws y lle. Cawn ddisgrifiad o gri'r glowyr wrth fynd ar streic a'u hafiaith. Mae hyn mewn cyferbyniad â'u hymdrech i fwydo eu teuluoedd ymhen blwyddyn wrth iddynt barhau ar streic. Trodd ffrind gorau y prif gymeriad yn fradwr wrth iddo ildio a rhoi'r flaenoriaeth i'w deulu dros ei gymuned. Cawn y cofnod olaf ymhen ugain mlynedd wrth i'r glöwr bwysu a mesur y dylanwadau a'r newidiadau a fu ar y Cwm. Tybed a ddylai'r cofnod olaf hwn fod ychydig yn fwy dadansoddol ei naws ac yntau wedi heneiddio?

Rhif 387/20: Lois

Caiff dawn ysgrifennu amlwg ei amlygu yn y stori hon. Yn anffodus, wrth ddewis merch mewn anobaith fel prif gymeriad y stori ni lwyddodd Lois i ddianc rhag yr anobaith hwnnw.

Darlun unochrog felly a gawn ac ni lwydda Lois i ddianc rhagddo. Byddai creu darlun gobeithiol neu led obeithiol yn ychwanegu at yr anobaith drwy greu gwrthgyferbyniad.

Rhif 387/21: Dafad ddu

Gafael gadarn ar yr iaith a dawn trin geiriau'n amlwg yn y stori. Byddai wedi bod yn werthfawr dychwelyd at y gwaith wedi'r ail ddrafft a phenderfynu pa ansoddeiriau a delweddau sy'n hanfodol i'w cynnwys a pha rai y gellid ei hepgor. Gwelaf fod y diffyg gofal o'i braidd yn symbol o'i fywyd. Cloi'n bwrpasol.

Rhif 387/22: Aur

Ymson yn llawn ofnuswydd wrth agor, gan ymboeni ynglŷn ag ofn methiant ac ofn unigrwydd heb unrhyw ffrindiau. Ymdroi ymhlith y teimladau tywyll a wnawn yn yr ymson, darlun sy'n llawn anobaith. Darlun unochrog felly a gawn gan Aur ac ni lwydda i ddianc rhagddo. Mae'r ymson yn galw am wrthgyferbyniad a byddai creu darlun o obaith yn ychwanegu at yr anobaith a deimla'r bachgen.

Rhif 387/23: Eiddwen Elysteg

Wedi dewis creu stori gan ddefnyddio fferm sy'n dioddef o'r clwy traed a'r genau fel cefndir iddi. Ymateb truenus y ffermwr druan yw hanfod y stori. Er mwyn creu newid trawiadol oni ellid bod wedi agor drwy greu golygfa ar y fferm cyn i'r clwy ymddangos? Byddai hynny yn ychwanegu at druenuswydd y ffermwr yng ngweddill y stori. Y gallu i greu deialog yw un o gryfderau'r stori hon a hefyd y gallu i ddarlunio truenuswydd yr hen ffermwr wrth wynebu ei golled.

Rhif 387/24: Dihiryn mewn ffilm

Dawn i adrodd stori yn cael ei amlygu gan yr awdur/es ac yn dewis bachgen ifanc sy'n arbenigo ar dorri i mewn i gar a'i ddwyn fel prif gymeriad. Mae'r agoriad wrth ei ddisgrifio yn dwyn y car yn argyhoeddi. Y stori'n datblygu wrth i ni gyfarfod â Mr Keylor a gwelwn ochr chwareus a digywilydd y lleidr. Mae datblygiad yn y stori wrth gloi, ond tybed ydy'r cyfan yn digwydd yn rhy gyflym wrth i bethau mawr ddigwydd? Tybed ydy'r cynfas yn rhy eang i wneud cyfiawnder ag ef mewn stori mor fer?

Rhif 387/25: Claerwen

Teimlaf fod sensitifrwydd yn y gwaith hwn a bod dawn creu darluniau hudolus hyd yn oed yn cael ei arddangos. Yn anffodus mae angen grymuso'r mynegiant cyn llwyddo i greu gwaith gorffenedig.

Rhif 387/26: Coed Palmwydd

Stori syml ac ysgafn ydi hon, ond eto i gyd rhaid cyfaddef eich bod wedi llwyddo i'w chyfleu'n llwyddiannus. Teimlaf fod y ddawn gennyh i anelu'n uwch a bod yn rhaid i chi wneud hynny er mwyn ennill gwobr mewn cystadleuaeth mor safonol.

Rhif 387/27: Y Ferch o Alltwen

Wedi cyfleu perthynas sigledig Dafydd a Carys yn arbennig o lwyddiannus a'r elfen derfysgol yn y gŵr. Er na fyddaf fel arfer yn hoff o'r tro yng nghynffon stori, eto i gyd gwnaethoch hynny'n llwyddiannus yn y stori hon. Ond roedd angen treiddio'n ddyfnach i fywydau'r ddau er mwyn sicrhau bod y clo'n argyhoeddi.

Rhif 387/28: Blodyn yr Haul

Dyddiadur sy'n darlunio bywyd gwraig sy'n cael ei cham-drin yn wael. Cafodd y dyddiadur ei

ysgrifennu mewn ieithwedd goeth sy'n dderbyniol er y buaswn wedi disgwyl mwy o ddefnydd o'r iaith lafar. Cawn y newid yn ei bywyd wrth iddi lwyddo rhyddhau ei hun o'r berthynas a dychwelyd at ei mam. Buaswn wedi disgwyl ychydig mwy o benbleth wrth iddi benderfynu symud efallai a hithau wedi byw gydag ef cyhyd, ond eto i gyd, rhaid canmol y dyddiadur.

Rhif 387/29: Dartiau

Mae angen gosod y stori mewn lle arbennig a bod angen creu prif gymeriad mwy pendant nag a geir. Teimlaf mai creu stori yn seiliedig ar syniad a wnaeth Dartiau. Felly, er mor rymus yw'r stori a'r ffaith iddi gael ei gosod yng ngwlad Catalan, sy'n ennyn cydymdeimlad y darlennydd, teimlwn fod angen gwedd mwy bersonol yn y stori. Hoffwn, er enghraifft, gael golygfeydd mewn gorsaf bleidleisio a chyfarfod â rhai o'r ymgyrchwyr fel y gallwn uniaethu â'u profiadau.

Rhif 387/ 30: Ffleur-de-Taf

Mae'r stori wedi'i lleoli ar fferm ac yng nghwmni ffermwr nodweddiadol digon ceidwadol ei syniadau. Cyfres o olygfeydd byrion yw'r stori sy'n ymdebygu i sript drama deledu. Yn yr agoriad cawn wybod fod Gethin yn dychwelyd i'w gartref am 12 o'r gloch ar ddydd Sadwrn. Yna aiff y stori a ni yn ôl dros fywyd Gethin, ei enedigaeth ac ysfa'r tad am gael mab i helpu ar y fferm ac i chwarae rygbi. 'Ond nid Gethin oedd hynny erioed.' Llwydda'r stori i bendillio rhwng y presennol a'r gorffennol yn grefftus a chawn ein harwain at y clo sydd yn ein hyswyd. Er bod agwedd y tad at ei fab yn eithafol, nid yw'r awdur yn colli meistrolaeth ar ei stori.

Rhif 387/31: Rwdlan

Stori fach hyfryd sy'n defnyddio'r tylwyth teg fel y prif gymeriadau. Cawn wrthgyferbyniad llwyr rhwng bywyd ym myd ei mam sy'n llawn chwerwder dieflig a bywyd yng ngwlad ei nain sy'n llawn cariad. Defnyddio'r tylwyth teg a wna Rwdlan i ddarlunio gwerthoedd dynol a gwna hynny'n llwyddiannus. Efallai fod lle i rymuso'r clo, er mai efallai hollti blew ydw i wrth awgrymu hynny.

Rhif 387/32:Wydys

Dawn y llenor yn cael ei amlygu yn yr agoriad a llwydda i greu darluniau a disgrifiadau a wnaeth atal y darllen er mwyn ail flasu'r brawddegau. Yna, cawn eiriau tebyg yn cael eu hadrodd gan y terfysgwr ond o bersbectif gwahanol. Syniad da. Teimlaf serch hynny fod rhywbeth ar goll ar y dudalen olaf. Rhaid canmol y cynildeb serch hynny ac mae'r llinell glo'n gofiadwy 'Mae'r nos yn tasgu ei dagrau dros y ddinas hon.'

Rhif 387/33: Bethania

Wedi arbrofi drwy gyfuno barddoniaeth a rhyddiaith i gyfleu'r ymwahanu yn dilyn dyddiau ysgol. Rwy'n canmol y rhyddiaith ond yn anffodus ni theimlaf fod y farddoniaeth yn cyrraedd yr un safon gan i chi ordddefnyddio odlau sy'n tynnu sylw oddi ar y dweud.

Rhif 387/34: Adda

Teimlaf fod angen i chi wau'r wybodaeth rydych am ei gyfleu i'r darlennydd i mewn i gorff y stori yn hytrach na'i gyfleu yn uniongyrchol ac mor ffeithiol – 'Merch fach ifanc yw Lleucu... Mae'r ferch fach annwyl wedi dechrau mynd i gylch meithrin... Mae'r tŷ wedi'i leoli ar draeth... Angen i ni'r darllenwyr fyw y profiadau yn eu cwmni yn hytrach na dweud beth sy'n digwydd iddyn nhw.

Rhif 387/ 35: Rwdlan Arall

Trafod annibyniaeth a wna Rwdlan Arall a chawn ymresymu cadarn yn ei gwaith mewn Cymraeg graenus. Yr hyn a'm trawodd oedd bod yma gystadleuydd deallus wedi darllen yn eang a bod y gallu ganddi i gyflwyno dadleuon ffres yn eglur. Mae ei gafael ar yr iaith Gymraeg yn sicrhau bod yr erthygl yn llifo'n hwylus a chefais fel darllenydd fy hudo ganddi. Llwydda hefyd i gyflwyno gwrthddadleuon a chynnig ymatebion iddynt. Yn ddiddadl dyma'r darn ffeithiol gorau yn y gystadleuaeth a'i champ yw gallu cynnig newydd-deb ar destun y bu llawer o ddadlau a thrafod.